# Adroddiad Archwilio a Throsglwyddo'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI)

# 2013-2014

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

**ENW: Vinny Ness**

**Swyddog Bydwragedd yr AGLI**

**Dyddiad: 31.10.14**

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol……………………………………………
2 Cyflwyniad ……………………………………………………...…...
3 Canfyddiadau'r Archwiliad………………………………………………
4 Cynllun Cysgodi/Trosglwyddo Goruchwyliaeth wedi'i Ddiogelu at y Dyfodol.……...
5 Casgliad…………………………………………………………
6 Atodiadau ……………………………………………………...…..

## Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau mewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl) sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ei chyflawni'n unol â'r safonau a bennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y mae ei fanylion wedi eu cyflwyno yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, cyflawnir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae gan yr AGLl yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar ei ran.

**1.2** Canolbwynt cyffredinol goruchwylio yn ystod y flwyddyn fu datblygu model goruchwylio diwygiedig a fydd yn galluogi'r AGLl a'r Byrddau Iechyd (BI) i gyflawni eu dyletswyddau statudol priodol. Y cefndir i'r angen am fodel goruchwylio wedi'i Ddiogelu at y Dyfodol yng Nghymru oedd nodi llawer o risgiau yn y model presennol yn ogystal â nifer gynyddol o ymddiswyddiadau a chaniatâd i fod yn absennol ymhlith Goruchwylwyr Bydwragedd nad oeddent yn gallu cydbwyso gofynion cynyddol y swyddogaeth goruchwylydd gyda rhai eu prif swyddi.

**1.3** Y cynllun gwreiddiol oedd rhoi'r model diwygiedig o oruchwyliaeth yng Nghymru ar waith ar 1 Ebrill 2014. Bwriad yr AGLl oedd y byddai adroddiadau archwilio'n cael eu cyhoeddi yn y mis Mai dilynol fel y gallent adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol o ran goruchwyliaeth ym mhob BI yn ogystal â nodi'r materion i'w trosglwyddo a'r cynllun gweithredu i ddatblygu goruchwyliaeth. Mewn gwirionedd, yn dilyn sawl achos o oedi cyn ei roi ar waith, 4 Awst 2014 oedd diwrnod cychwyn y model a gyfrannodd wedyn at yr oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad archwilio a throsglwyddo. Wrth gwrs, mae'r AGLl wedi parhau i weithio gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth a'r timau goruchwylio i sicrhau bod goruchwyliaeth bydwragedd wedi cael ei chefnogi'n briodol a'i darparu'n effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

**1.4** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu perfformiad Goruchwylwyr Bydwragedd o ran cyflawni'r swyddogaeth o oruchwylio ym mhob BI yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

**1.5** Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ar adeg yr archwiliad yn gynharach eleni yn ogystal â'r statws cyfredol nawr bod y trosglwyddiad wedi'i gyflawni a bod y model diwygiedig wedi cael ei roi ar waith yn llawn. Bydd hefyd yn cynnwys y cynllun gweithredu hunanasesu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn rhan o'r broses archwilio ac a fireiniwyd ers hynny gan Oruchwylwyr Bydwragedd a benodwyd i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth sydd bellach yn gyfrifol am ddatblygu

goruchwyliaeth i fod yn ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel, prydlon ac effeithiol.

**Trosolwg**

Mae'r AGLI yng Nghymru wedi parhau i ddiwygio a mireinio'r broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth a luniwyd yn wreiddiol yn 2011-2012. Cynhaliwyd yr archwiliad cyfredol gan ddefnyddio dull tîm gyda mewnbwn gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd i dimau Goruchwylwyr Bydwragedd asesu eu cynnydd yn derbyn pob un o'r 17 safon a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i nodi ble'r oeddent yn credu roedd angen cymryd camau datblygu neu'r oedd argymhellion wedi cael eu gwneud yn flaenorol gan yr AGLI. Bydda'r cynllun gweithredu'n rhan o'r cynllun trosglwyddo o'r model Goruchwylwyr Bydwragedd presennol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd Goruchwyliaeth Diogelu at y Dyfodol (FPS) fwrw ymlaen ag ef. Dangosodd yr archwiliad presennol bod tystiolaeth **GREF** i gefnogi 88% (15) o feini prawf yr un deg saith o safonau, a bod tystiolaeth **GREF/GANOLIG** yn cefnogi'r 12% (2) arall. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi nodi meysydd i'w datblygu ond mae amryw o'r camau'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch sut bydd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a thîm FPS yn cynnal y safle gref bresennol. I raddau mae hyn yn anochel gan nad yw'r Goruchwylwyr Bydwragedd presennol wedi bod yn gymaint rhan o'r broses o ddyfeisio'r fframwaith perfformiad ar gyfer bwrw goruchwyliaeth yn ei blaen.

Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd BI Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a benodwyd i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth yn gweithio tuag at ddarparu eu cynllun gweithredu fel y nodir yn adran tri i gefnogi'r broses o ddatblygu safonau yn ystod y flwyddyn. Bydd angen hefyd iddynt ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion a godwyd yn y cynllun trosglwyddo sydd i'w weld yn adran pedwar. Bydd bodloni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a nodwyd ym Manyleb Gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol yn gwella ac yn dylanwadu ymhellach ar newid i arfer. Bydd cynnydd yn erbyn y DPAau yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Grŵp Arweinyddiaeth Uwch AGIC. Bydd adroddiadau tri misol yn cael eu paratoi a'u rhannu gyda Phenaethiaid Bydwragedd i ganiatáu monitro pellach ac i fynd i'r afael ag unrhyw heriau penodol i gynnydd.

Mae'r AGLI wedi bod yn eglur o'r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ail-ddylunio'r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ein bod o'r farn y bydd craffu allanol ar yr AGLI yn hanfodol nawr bod goruchwylwyr yn gweithio'n uniongyrchol i'r AGLI. Gobeithiwn y bydd personél Bwrdd Iechyd priodol yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses archwilio fel ffordd o ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi amddiffyn y cyhoedd.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC maes o law yn **www.agic.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Disgwylir i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio yn unol â set gyffredin o safonau i ymrymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol gan wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn hysbysu'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygiad gan gymheiriaid yn erbyn holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLl, o leiaf un Adolygydd Lleyg yr AGLl a Goruchwylydd Bydwragedd profiadol o BI cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio, yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid yn ogystal â chefnogi arfer da. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr AGLl yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio yn hytrach nag adolygwyr lleyg yn cynnal swyddogaeth archwilio ar wahân ac anghysylltiedig, fel yn y gorffennol, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd ymweliad archwilio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 8 Ionawr 2014, yn unol â'r amserlen. Gwahoddwyd personél allweddol i fynychu yn ogystal â thîm goruchwylio'r BI (**Atodiad A - Rhaglen**). Hefyd, cynhaliodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, wedi ei gefnogi gan Adolygydd Lleyg ac weithiau Swyddog Bydwreigiaeth, archwiliadau Pyramid tri misol yn rhan o'r cylch archwiliadau blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn syth ar ôl yr ymweliad gan nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth lle'r oedd angen datblygiad.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Vinny Ness Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, gyda chymorth Martine Lloyd, Goruchwylwraig Bydwragedd o fwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro sydd newydd ei chymhwyso, a Sam Howells a Louise Woolley, Adolygwyr Lleyg yr AGLl.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad byr gan Vinny Ness ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd, yn rhoi trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r gweithgareddau goruchwylio, ynghyd â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arferion da. Yn ogystal rhoddodd yr ymweliad arolygu gyfle i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio, Pennaeth Bydwreigiaeth, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant, a defnyddwyr gwasanaeth gwrdd a rhannu gwybodaeth ar oruchwyliaeth. (**Atodiad B – Mynychwyr**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3.1 Darparu goruchwyliaeth effeithiol.

Mae AGLl Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o Oruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9 rheolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[1] yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yn fwy nag 1:15 fel rheol ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

Ar 31 Mawrth 2014 roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cyflogi 305 o fydwragedd, ac roedd ganddo 20 o Oruchwylwyr Bydwragedd ac felly cymhareb o 1:15 sy'n unol â Safon y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

#### 3.1.1 Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd, dad-ddewis, ymddiswyddiad a chaniatâd i fod yn absennol

Yn ystod y flwyddyn archwilio dad-ddewiswyd dau Oruchwyliwr Bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg o'u rôl, a chymerodd dau arall gyfnod o absenoldeb gyda chaniatâd. Y prif reswm a roddwyd am gymryd absenoldeb gyda chaniatâd oedd pwysau eu prif rôl a'r angen i gydbwyso bywyd gwaith a chartref yn well. Penodwyd dau Oruchwyliwr Bydwragedd hefyd yn ystod y flwyddyn. Mynegodd amryw o Oruchwylwyr Bydwragedd eraill eu dymuniad i gael eu dad-ddethol ond cydweithiodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd er mwyn rheoli'r pwysau cynyddol ac annog Goruchwylwyr Bydwragedd i aros yn y rôl tra bod y model newydd yn cael ei gyflwyno.

Parhaodd yr AGLl i gefnogi datblygiad parhaus Goruchwylwyr Bydwragedd (Rheol 8[2]) trwy weithdai lleol a digwyddiadau ymgysylltu, yn ymwneud yn benodol â'r model Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol (FPS). Gan fod ymchwiliadau goruchwylio'n faes o risg i'r AGLl, roedd y gweithdai lleol yn canolbwyntio ar wella sgiliau Goruchwylwyr Bydwragedd o ran ymchwilio ac ysgrifennu adroddiadau'n unol â Rheol 10[3]. Roedd pwyslais pellach ar gau'r bwlch rhwng adfer arfer bydwreigiaeth a dysgu gwersi ehangach yn brydlon. Rhoddwyd Gweithlyfr Ymchwilio

---

[1] Rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)
[2] Mae Rheol 8 rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofyniad am ddatblygiad proffesiynol parhaus fel goruchwylydd bydwragedd.
[3] Mae Rheol 10 rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi gweithdrefnau'r AGLl ar gyfer ymchwiliadau goruchwylio.

manwl i Oruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn cynnwys yr holl dempledi ac enghreifftiau angenrheidiol i'w cynorthwyo yn eu hymarfer. Yng ngoleuni'r model FPS sydd ar fin cael ei roi ar waith, gohiriodd yr AGLI y gynhadledd oruchwylio flynyddol gan drefnu i gynllunio digwyddiad ar gyfer 2015 a fydd yn cael ei hwyluso gan dîm o Oruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer bydwragedd a'u dealltwriaeth o atebolrwydd proffesiynol.

### 3.1.2 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[4] yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwraig Oruchwylydd Bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod ag ef o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol. Roedd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg wedi cydymffurfio'n barhaus ac roedd gan 100% o fydwragedd Oruchwylydd Bydwragedd wedi'i enwebu iddynt drwy gydol y flwyddyn. Y raddfa gyfartalog wrth gydymffurfio â'r cyfarfodydd goruchwylio blynyddol oedd 98% ar hyd y flwyddyn oruchwylio. Mae hyn yn llwyddiant arbennig, a gwellodd y ganran o chwarter i chwarter, gyda chwarteri tri a phedwar yn nodi 99%.

Mae'r AGLI yn annog ASRau i gael eu cwblhau'n electronig ac yna caiff y profformas eu storio ar y gronfa ddata AGLI genedlaethol. Dangosodd yr archwiliad o gofnodion papur gydymffurfiad cryf â'r safonau gofynnol ac roedd safbwyntiau bydwragedd o'r broses ASR yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd hyn yn cynnwys pan roeddent o'r farn bod y broses o werth ac os oeddent yn cael amser a phreifatrwydd priodol ar gyfer y broses. Mae monitro'r cydymffurfiad â'r broses ASR wedi bod yn elfen bwysig o baratoi ar gyfer gweithredu'r model FPS, gan sicrhau nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd FPS yn etifeddu gwaith ychwanegol a bod cofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd yn addas i'r trosglwyddo ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol (gweler y cynllun trosglwyddo am fanylion). Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd yn Abertawe Bro Morgannwg yn ffodus iawn i gael ysgrifennydd penodol a oedd yn effeithiol iawn wrth ei gwaith. Hoffai'r AGLI fynegi ei ddiolch i Pat am ei chymorth diflino i oruchwyliaeth dros y blynyddoedd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gweithredu rota ar alwad 24 awr ar draws y bwrdd iechyd ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd ei tro i sicrhau bod mynediad at Oruchwylydd ar gael i fydwragedd a menywod. Roedd archwiliad blynyddol o gyfraddau ymateb ar alwad, a wnaed gan Arolygwyr Lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, ar y cyfan yn gadarnhaol gyda'r Goruchwylydd Bydwragedd a oedd ar alwad yn ymateb o fewn 12 – 26 o funudau. Roedd gwall technegol ar un llinell ffôn yn sgil salwch ond cywirwyd hyn yn syth ar ôl sylwi ar y mater.

[4] Mae Rheol 9 o reolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofyniad ar gyfer goruchwylydd bydwragedd.

Mynychodd Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol 60% o gyfarfodydd deufisol bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg i sicrhau bod cyfathrebu clir yn digwydd rhwng yr AGLl a'r Goruchwylwyr Bydwragedd ar bob agwedd ar y swyddogaeth oruchwylio. Roedd presenoldeb Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl hefyd yn rhoi cyfle i gynnig cyngor a chefnogaeth ychwanegol i Oruchwylwyr Bydwragedd gyda materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â galluogi'r Awdurdod Goruchwylio Lleol i oruchwylio Goruchwylwyr Bydwragedd wrth iddynt gynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

### 3.1.3 Yr effaith ar oruchwylio bydwragedd sy'n gweithio y tu allan i wasanaethau mamolaeth

Ceir nifer o ymarferwyr yn BI Abertawe Bro Morgannwg, fel BI eraill ledled Cymru, sy'n defnyddio eu cofrestriad bydwreigiaeth ond nad ydynt wedi'u cyflogi mewn swydd fydwreigiaeth yn uniongyrchol. Mae'r ymarferwyr ym mwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg sy'n disgyn i'r categori hwn yn cael eu cyflogi fel Ymwelwyr Iechyd ond mae angen Goruchwylydd Bydwragedd penodol arnynt er mwyn cydymffurfio â rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Penderfynodd Goruchwylwyr Bydwragedd BI Abertawe Bro Morgannwg reoli'r llwyth gwaith ychwanegol drwy nodi Goruchwylydd Bydwragedd penodol ar gyfer y rheiny sydd wedi'u cofrestru. Sicrhaodd hyn fod llwyth gwaith y Goruchwylwyr Bydwragedd yn haws i'w reoli a hefyd bod tegwch o ran goruchwylio safonau grŵp o weithwyr proffesiynol a fyddai fel arall yn gallu cael eu hynysu o broffesiwn bydwreigiaeth. Caniataodd y Goruchwylwyr Bydwragedd i feincnodi gweithgaredd pob ymarferydd yn erbyn ei gilydd.

## 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth

Mae gan BI Abertawe Bro Morgannwg Bwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac mae Swyddog Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol wedi bod i gyfarfodydd ar sawl achlysur i dynnu sylw at faterion perthnasol mewn perthynas â goruchwyliaeth. Yn fwyaf diweddar, gwnaeth y pwyllgor gyflwyniad ar y model FPS a sut y byddai menywod yn gallu cael mynediad at gefnogaeth Goruchwylydd Bydwragedd. Mae cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi bod i'r diwrnod archwilio blynyddol ac wedi cyfarfod ag adolygwyr lleyg er mwyn clywed eu barn ar sut y gwnaeth goruchwylio statudol gefnogi menywod sy'n derbyn gofal mamolaeth ym mwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg.

Ymgysylltodd adolygwyr lleyg yr AGLl hefyd â menywod sy'n defnyddio gwasanaethau BI Abertawe Bro Morgannwg yn ystod pob ymweliad Pyramid. Roedd yn siomedig darganfod, trwy gydol y flwyddyn, cyn lleied o ddefnyddwyr oedd ag unrhyw wybodaeth o oruchwyliaeth a'i diben

neu a oedd wedi bod mewn cysylltiad â Goruchwylydd Bydwragedd i gael cyngor neu gymorth. Ar y llaw arall, gallai hwn fod yn ymateb cadarnhaol sy'n golygu bod y menywod hynny a gyfarfu â'r adolygwyr lleyg yn fodlon gyda'r gofal iddynt ei dderbyn sef, bron yn ddieithriad, yr adborth a dderbyniwyd gan fenywod a'u teuluoedd. Roedd o gymorth mawr i'r AGLI a'r gwasanaeth i weld y ward o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a darparodd yr adolygwyr lleyg adborth penodol ar yr amgylchedd gofal a phriodoldeb y wybodaeth sydd ar gael i fenywod. Darparodd yr adolygwyr lleyg fewnbwn i'r adroddiadau tri misol yn ôl i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a chymerasant ran yn y gwaith o brawf-ddarllen yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Rhoddodd Goruchwylwyr Bydwragedd BI Abertawe Bro Morgannwg gymorth i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol wrth gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer Abertawe Bro Morgannwg fel y gallai Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI fynychu cyfarfod â nhw i godi proffil goruchwyliaeth statudol a rhannu'r model arfaethedig ar gyfer goruchwylio yng Nghymru â nhw.

### 3.2.1 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI – nodi risgiau a manteision

**Tabl 1 Cynllun Gweithredu Hunanasesu Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg**

| Rhif Safon | Maen Prawf/Mesur | Camau Gwella Arfaethedig Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd | Rhif Safon | Maen Prawf/Mesur | Camau Gwella Arfaethedig Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Gofyn am safbwyntiau a phrofiadau bydwragedd ar oruchwyliaeth statudol.<br><br>**CRYF** | Anfon canlyniadau archwiliad goruchwylio 2013 i Oruchwylwyr Bydwragedd i'w galluogi i weithredu unrhyw gamau.<br>• Dadansoddi data'r archwiliad sy'n mynd rhagddo i adnabod unrhyw feysydd sydd angen eu gwella ac i lunio cynlluniau gweithredu priodol.<br>• Rhoi adborth nid yn unig ar agweddau negyddol ond rhai cadarnhaol hefyd.<br>• Cwblhau'r Polisi Ffrindiau a Theulu diwygiedig. | **9** | Trefnir cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi<br><br>**CRYF** | • Mae unrhyw gamau sy'n weddill o Gynllun gweithredol y Goruchwylydd Bydwragedd, a'r cynllun gweithredu yn dilyn adolygiadau goruchwylio blynyddol 2012/2013, wedi'u gosod yn null cymhwysedd y tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd fel mai un cynllun gwaith cyfun sydd bellach ar oruchwyliaeth.<br>• Anfonwyd cynlluniau cyfarfod at bob Goruchwylydd Bydwragedd ar gyfer 2014, er y bydd cyfarfodydd yn dod i ben ar y ffurf bresennol ar 1 Ebrill 2014 yn sgil y model |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | FPS newydd.<br>• Arweinydd Datblygiad Proffesiynol i fynychu Goruchwyliaeth Bydwragedd ar 30/01/14. |
| **2** | Cyflawnir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy’n sicrhau preifatrwydd.<br><br>**CRYF** | Angen trafod â Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth ynghylch cael canolfan leol yn y dyfodol ar gyfer y Goruchwylwyr Bydwragedd o fewn y strwythur oruchwylio newydd. | **10** | Mae dulliau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwylydd Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol<br><br>**CRYF** | Nid oes cam gweithredu newydd ar waith |
| **3** | Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau a chanllawiau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.<br><br>**CRYF** | Cyn cyflwyno'r model newydd o oruchwyliaeth, caiff cynllun gweithredu ei lunio i sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisïau a chanllawiau ar sail tystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol, a bod cynrychiolaeth Goruchwylwyr Bydwragedd ar yr holl fforymau a phwyllgorau perthnasol yn cael ei diogelu. | **11** | Fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol bydwragedd yn eu strategaethau.<br><br>**CRYF** | Cyn cyflwyno'r model FPS newydd o mae angen i drafodaeth ddigwydd gyda Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i sicrhau bod modd cynnal y safon hon a goresgyn unrhyw rwystrau ymarferol yn sgil y bwriad i leihau nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd. |
| **4** | Mae gan bob bydwraig fynediad at ddogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar ffurf electronig neu gopi caled.<br><br>**CRYF** | Llunio siart lif er mwyn i'r bydwragedd i gyd fod yn ymwybodol pan gaiff polisïau, protocolau a chanllawiau eu cyflwyno, eu diweddaru neu eu hadolygu. | **12** | Mae rhyngwyneb rhwng goruchwyliaeth a rheoli risg yn amlwg wrth ymchwilio digwyddiadau critigol<br><br>**CRYF** | Cyn cyflwyno'r model FPS newydd mae angen i drafodaeth ddigwydd gyda Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i sicrhau bod modd cynnal y safon hon a goresgyn unrhyw rwystrau ymarferol yn sgil y bwriad i leihau nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd. |
| **5** | Darperir/mynychir gweithdai sgiliau ac ymarferion i fydwragedd sy’n berthnasol i’w hymarfer fel yr argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill<br><br>**CRYF/CYMHEDROL** | • Cydweithio ag Arweinwyr Datblygiad Proffesiynol Parhaus a chymorth ysgrifenyddol i sicrhau bod cysondeb yn y nifer o bobl sy'n mynychu bob diwrnod sgiliau.<br>• Sicrhau y gwneir y mwyaf o'r llefydd am ddim ar ddiwrnodau astudio'r NLS yn 2014. | **13** | Rhennir canlyniadau digwyddiadau critigol i hysbysu ymarfer<br><br>**CRYF** | • Cyn cyflwyno'r model FPS newydd mae angen i drafodaeth ddigwydd gyda Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i sicrhau bod modd cynnal y safon hon a goresgyn unrhyw rwystrau ymarferol yn sgil y bwriad i leihau nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Pob bydwraig berthnasol i gwblhau asesiad gwnïo perinëwm. |
| **6**<br>**7** | Y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion o weithgareddau Goruchwylio Cynnal a chadw a storio | • Yn ystod cyfarfod diwethaf y Goruchwylwyr Bydwragedd ym mis Tachwedd 2013 cynghorwyd Goruchwylwyr | **14** | Cynhelir archwiliad o waith cadw cofnodion pob bydwraig yn flynyddol. | • Angen dyfeisio taflen grynodeb o ganlyniadau archwiliad cofnodion 2013/14.<br>• Anfon taflenni crynodeb i'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cofnodion goruchwylio mewn ffordd ddiogel<br><br>**CRYF x 2** | Bydwragedd i ddechrau trefnu ffeiliau goruchwylio gydag ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Mae ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi dechrau pori drwy ffeiliau papur a gedwir yn swyddfa'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn Singleton. | | **CRYF** | ar gyfer trafodaeth gyda'r sawl sy'n cael ei oruchwylio yn yr adolygiad staff blynyddol.<br>• Datblygu cynllun gweithredu o'r canlyniadau.<br>• Lledaenu canlyniadau'r archwiliad presennol i bob aelod o staff gan gynnwys meddygon.<br>• Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Clinigol ynghylch unrhyw gamau gweithredu perthnasol i feddygon |
| | | | **15** | Cyhoeddir gwybodaeth sy’n berthnasol i oruchwylio bydwragedd trwy e.e. Cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-byst, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLl, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd<br><br>**CRYF** | • Cydweithio â rheolwr ward 18 ynghylch cael hysbysfwrdd goruchwylio i hysbysu menywod ynghylch goruchwyliaeth a sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd.<br>• Gan fod darparu gwybodaeth i ferched ynghylch goruchwylio statudol yn rhan o ddull cymhwysedd (T6) y tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd a bod 2 Oruchwylydd Bydwragedd wedi cael eu dynodi i arwain datblygiadau eraill yn y maes hwn, mae angen sicrhau bod camau priodol yn cael eu gweithredu. |
| **8** | Darperir cymorth i Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLl<br><br>**CRYF** | Angen rhagor o eglurder gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ynghylch trefniadau gweinyddol ar gyfer y dyfodol, am na fydd cymorth gweinyddol neilltuedig ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd ar gael ar raddfa leol o dan y model FPS newydd. | **16** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio polisïau, gosod safonau a monitro ymarfer ac offer er budd Iechyd a Diogelwch.<br><br>**CRYF** | • Cyflwyno'r sticer cardiotocograff (CTG) cynenedigol<br>• Goruchwylwyr Bydwragedd i fonitro cydymffurfiaeth â rhaglen asesu a hyfforddiant ELFH ar fonitro ffetws.<br>• Parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r ddau sticer CTG. |
| **17** | Mae’r Goruchwylwyr Bydwragedd yn hysbysu eu cyflogwyr am eu pryderon pan allai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.<br>**CRYF/CYMEDROL** | • Treialu Llywiau Lloeren Hysbysu pob bydwraig gymunedol y gallan nhw fynd i'w hysbyty agosaf a gofyn am dacsi i fynd â nhw i enedigaeth mewn cartref os oes angen.<br>• Pob bydwraig gymunedol i adrodd i'r Ganolfan Geni pan ânt allan ar alwad a phan ddychwelant. | | | |

**3.2.2** I grynhoi, dangosodd yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni pob un o'r 17 safon a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bodlonwyd un deg pump, 88%, o'r safonau gyda thystiolaeth gref, a dangoswyd y bodlonwyd dau arall, 12%, o'r safonau gyda thystiolaeth gref i gymhedrol. Roedd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cwblhau hunanasesiad cyn yr ymweliad archwilio a nodwyd camau gwella priodol ganddynt pan roeddent o'r farn bod eu tystiolaeth yn llai cadarn, er mwyn sicrhau bod y safon yn datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllunio gweithredol yn cefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd y model FPS i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud fel mater o flaenoriaeth wrth i'r model newydd ymsefydlu.

Mae'r AGLI hefyd wedi cynnal ymweliadau Pyramid tri misol trwy gydol y flwyddyn fel estyniad i'r broses archwilio. Rhoddwyd mynediad rhydd i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI at feysydd clinigol o ddewis ac fe'i cefnogwyd gan adolygydd lleyg o'r AGLI yn ystod yr ymweliad. Paratowyd amserlen gyfweliadau benodol ymlaen llaw gyda'r adolygydd lleyg gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd gofal a gofyn am safbwyntiau menywod a theuluoedd, tra bod Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn canolbwyntio ar drafodaethau gydag aelodau staff, diogelwch ar y ward a chadw a storio cofnodion. Ymunwyd â thîm yr AGLI weithiau gan Oruchwylydd Bydwragedd o'r BI a oedd yn gallu gweld y ward o wahanol safbwynt.

Roedd yr AGLI o'r farn bod hwn yn ymarfer defnyddiol iawn ac roedd ganddynt fynediad at lawer mwy o safbwyntiau menywod a bydwragedd na thrwy gynnal un digwyddiad blynyddol. Cymerwyd nodiadau gan bob aelod o'r tîm a bu ôl-drafodaeth ar ddiwedd yr ymweliad i nodi unrhyw feysydd o bryder yr oedd angen eu hamlygu i reolwr y ward neu'r Pennaeth Bydwreigiaeth i fynd i'r afael â nhw'n syth. Paratowyd adroddiad drafft gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI o nodiadau'r cyfarfod a'r sesiwn ôl-drafodaeth ac yna fe'i rhannwyd gyda'r tîm ymweld er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiol. Ar ôl ei gytuno, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pennaeth Bydwreigiaeth gan amlygu meysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu.

## 3.3 Arfer Nodedig ac Arloesol gyda Meysydd i'w Datblygu a Nodwyd o'r Ymweliadau Pyramid

**Chwarter 1 Ysbyty Singleton Abertawe Ward 18**

**Arfer Da**

- Roedd yr holl hysbysfyrddau yn llawn gwybodaeth, yn daclus, yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Mae rhannu cynnydd y ward mewn perthynas â thargedau, p'un y bônt yn dda ai peidio, yn fodd o fod yn agored ac o ddangos tryloywder i fenywod ac aelodau'r cyhoedd.
- Amgylchedd trefnus, glân, taclus a digyffro lle dangosodd aelodau staff lefel uchel o broffesiynoldeb wrth eu gwaith

**Meysydd i'w gwella**

- Man cyfrinachol i drafod gwybodaeth bersonol gyda menywod sydd mewn ward sy'n cael ei rhannu.
- Adolygu a mynd i'r afael â safonau cadw cofnodion hyd yn oed pan fo prysurdeb mawr
- Hysbysfwrdd sy'n hysbysebu goruchwyliaeth statudol, pam a sut gall merch gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd.

**Chwarter 2 Ysbyty Tywysoges Cymru Penybont Ward Cynenedigol/Ôl-enedigol**

**Arfer Da**

- Byrddau gwybodaeth ar gyfer menywod a'u teuluoedd, er y gellid rhoi ystyriaeth i'w lleoliad.
- Yr arolwg ffrindiau a theulu a gynhaliwyd gan y swyddfa profiadau cleifion
- Rhannu DVD 'Rwy'n addo' a lefelau uchel o gydymffurfiaeth
- Roedd barn y menywod ar eu gofal yn gadarnhaol iawn a theimlent oll eu bod wedi eu hymgynghori ynghylch dewisiadau, os oedd yn briodol gwneud hynny, ac wedi eu hysbysu'n dda.

**Meysydd i'w gwella**

- Tacluso coridorau'r wardiau i greu lle ychwanegol a symud ymaith unrhyw rwystrau posibl
- Diweddaru a moderneiddio'r ystafell aros gyda sylw penodol i fonitro a mynd i'r afael ag amserau aros hir.
- Ystyried gosod blychau wedi'u cloi wrth erchwyn y gwely i gadw cofnodion a chreu mwy o le.
- Ystyried sut y gellir cylchdroi bydwragedd er mwyn gwella'u gwybodaeth o fannau gwahanol y ward ac i hyrwyddo dilyniant o ran gofal.

**Chwarter 3** oedd yr ymweliad archwilio blynyddol a gynhaliwyd yn Ysbyty Singleton ac felly nid oedd adroddiad Pyramid ar wahân

**Chwarter 4 Ysbyty Singleton Abertawe Ward 19**

**Arfer Da**

- Aed i'r afael â phryderon am reoli a chadw cofnodion ar Ward 18 ers yr ymweliad blaenorol.
- Amgylchedd gofal glân a chyfeillgar gyda rhai enghreifftiau gwych o wybodaeth i ferched a theuluoedd.
- Staff yn cofleidio newid a allai ac a ddylai hyrwyddo profiad y fenyw o gael ei derbyn ar y ward a rhoi genedigaeth.

**Meysydd i'w gwella**

- Dylid cynnal archwiliad o faint o ddefnydd o wrthfiotig IV ar gyfer babanod a wneir ar y ward ôl-enedigol gan gynnwys sut mae'n effeithio ar lwyth gwaith; efallai bydd angen i wybodaeth a sgiliau staff gael eu hadolygu a'u diweddaru.
- Mae angen diweddaru ychydig o'r wybodaeth gymhleth ar hysbysfyrddau cyhoeddus i sicrhau bod gwybodaeth yn berthnasol ac yn gyfredol.
- Bydd gan Oruchwylwyr Bydwragedd FPS her o ran codi amlygrwydd goruchwyliaeth ar lefel y ward, sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i fenywod a'u teuluoedd ar sut a pham i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd, ac i gefnogi bydwragedd i ddeall ac addasu i'r model diwygiedig o oruchwyliaeth fel nad yw'n cael ei weld fel darpariaeth israddol.

**4 Cynllun Trosglwyddo/Cysgodi Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg**

| Mater | Cam Gofynnol | Gan Bwy | Erbyn Pryd | Cynnydd/Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Prif swydd Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | Ôl-lenwi a chwblhau trosglwyddiad priodol | Holl Oruchwylwyr Bydwragedd FPS | | Wedi'u cwblhau i gyd |
| E-bost cyffredinol at bob Goruchwylydd Bydwragedd | Gofyn am osod nodiadau yng nghronfa ddata’r AGLl a chwblhau cymaint â phosib o'r adolygiadau goruchwylio blynyddol sydd i'w cyflwyno ymhen y mis nesaf | Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl JR | 14 Gorffennaf | Anfonwyd Awst 2014 |
| Trosglwyddo llwythi achosion Goruchwylwyr Bydwragedd | Anodi cronfa ddata’r AGLl yn briodol a threfnu cyfarfodydd 1:1 yn ôl y gofyn | Pob Goruchwylydd Bydwragedd | | Ambell un dal heb gael ei wneud. E-bost cyffredinol at yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd blaenorol wedi'i anfon ar 17 Hydref. |
| Rhannu adnoddau presennol | Llythyrau am oruchwyliaeth grŵp, posteri ac ati | JH, KR, JL | | Wedi'u rhannu |
| Cofnodion Goruchwylwyr Bydwragedd cyfredol | Llunio cynlluniau lleol ar gyfer canoli holl ffeiliau papur Goruchwylwyr Bydwragedd, rhwygo unrhyw ffeiliau lle mae’r fydwraig wedi marw neu wedi bod allan o’r gwasanaeth am fwy na 7 mlynedd.<br>Cynllun dros 1 i 2 flynedd i sganio a storio’r holl ffeiliau papur yn electronig a dinistrio copïau papur<br>Cynllunio i drosglwyddo pob copi papur o ddeunydd ymchwilio Goruchwylwyr Bydwragedd i’r AGLl dros 1 i 2 flynedd | O'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd i Oruchwylwyr Bydwragedd FPS | 31/8/14 ac yn barhaus | Yn barhaus, dim cyfathrebu ar hyn o bryd, cadarnheir os bydd unrhyw gofnodion i'w storio |
| Ymchwiliadau cyfredol | Dod â’r holl ymchwiliadau a gweithgareddau dysgu cyfredol i ben. Trosglwyddo i Oruchwylwyr Bydwragedd FPS os yw’n briodol lle mae dysgu’n parhau | Pob Goruchwylydd Bydwragedd | 31.7.14 | Trosglwyddiad wedi'i gwblhau |
| Cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd terfynol | Hwyluso’r broses o rannu camau sydd heb eu cyflawni sy'n codi o gynllun gweithredu Goruchwylwyr | Pob Goruchwylydd Bydwragedd | | Cyfarfod terfynol ym mis Gorffennaf 2014 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydwragedd. Nodi unrhyw faterion i'r Goruchwylydd Bydwragedd FPS fwrw ymlaen â nhw. | | | |
| Trefniadau cysgodi Goruchwylwyr Bydwragedd | Pan nad yw cynnydd mor ddatblygedig, bydd angen i bob Bwrdd Iechyd lunio cynllun cysgodi dros dro er mwyn caniatáu i drosglwyddiad ddigwydd ar adeg briodol | Pob Goruchwylydd Bydwragedd | | Ddim yn berthnasol |
| Rhwydweithio ar draws Byrddau Iechyd | Codi proffil Goruchwylwyr Bydwragedd FPS a'r model. Dechrau'r broses o ddatblygu perthynas i gefnogi cydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd. | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS sy'n gweithio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd cyfredol, a darpar Oruchwylwyr Bydwragedd | | Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio mewn 2 Fwrdd Iechyd. |
| Cynyddu amlygrwydd a chodi proffil y model diwygiedig | Cerdded o gwmpas yr amgylchedd mewn lleoliadau acíwt a chymunedol Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i sicrhau bod posteri Cipolwg o'r hyn sy'n newid yn cael eu harddangos ym mhob man clinigol priodol mewn lleoliadau acíwt a chymunedol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | | Yn amlwg ym mhob lleoliad<br><br>Hysbysfyrddau ar y gweill |
| Sesiynau Goruchwyliaeth Grŵp | Goruchwyliaeth grŵp i gael ei gynllunio tan fis Mawrth 2015<br>Bydwragedd ar bob lefel i gael eu targedu i fynychu grwpiau cyn bod angen cyflwyno adolygiad goruchwylio blynyddol. | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | | Mae sesiynau wedi dechrau ac wedi'u harchebu tan ddiwedd mis Mai. |
| Hysbysfyrddau Goruchwylwyr Bydwragedd | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i sicrhau bod pob hysbysfwrdd Goruchwylwyr Bydwragedd yn adlewyrchu'r model newydd ac yn cynnwys digon o wybodaeth am bwy yw'r Goruchwylwyr Bydwragedd gweithredol ym mhob Bwrdd Iechyd, sut i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd a pham allai menyw neu fydwraig fod eisiau cysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd<br>Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl i weithio gyda Goruchwylwyr | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS<br>Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol | | Wedi mynychu cyfarfod bydwragedd uwch<br><br>Rhifau ffôn a gwybodaeth ar alwad ar gael ar bob safle<br><br>Ffotograffau o'r tîm wedi'u harddangos ym mhob man. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydwragedd i ddatblygu gludwaith o luniau Goruchwylwyr Bydwragedd FPS ar gyfer yr hysbysfwrdd | | | |
| Llythyrau templed ynghylch y newid | Bydwragedd<br>Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg ar gyfer myfyrwyr | Is-grŵp Goruchwylwyr Bydwragedd FPS Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl | | Cyfarfod â'r Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg ym mis Hydref |
| Arloesedd yn arferion gwaith Goruchwylwyr Bydwragedd | Diweddaru cynlluniau gweithredu arloesedd mewn arferion gwaith ar gyfer yr is-grwpiau canlynol<br>• Bydwragedd dan Hyfforddiant<br>• Ymgysylltu â menywod<br>• Proffil goruchwyliaeth<br>• Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | | Rhoddodd WSE a KE gyflwyniad byr ar y model newydd o oruchwyliaeth yn Niwrnod Colegol Bydwragedd dan Hyfforddiant Prifysgol Abertawe. |
| System Ar Alwad Cymru | I gychwyn o 4 Awst 2014<br>Pob Goruchwylydd Bydwragedd FPS i fod wedi profi'r broses mewngofnodi ac allgofnodi<br>Argraffu posteri a'u lledaenu<br>Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i sicrhau bod posteri Ar-alwad wedi eu harddangos ym mhob man clinigol priodol yn ogystal â mannau eraill fel switsfwrdd, meddygfeydd teulu ac ati. | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS<br><br>GF<br><br>Goruchwylwyr Bydwragedd FPS | 4.8.14<br><br>31.7.14<br>28.7.14<br><br>1.8.14 | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| Cynlluniau gwyliau blynyddol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS i nodi a rhannu'r gwyliau sydd wedi eu trefnu ar hyn o bryd fel y gellir gwneud trefniadau wrth gefn priodol yn ôl yr angen | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS /yr AGLl | 1.8.14 | Wedi'i gwblhau |
| Cynlluniau datblygu Goruchwylwyr Bydwragedd | Goruchwylwyr Bydwragedd i weithio gyda Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl i nodi anghenion datblygu pellach fel y gellir dynodi adnoddau priodol i gefnogi hyn | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS / Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl | 1.8.14 | Wedi'i gwblhau |
| Amser gweinyddol rhanbarthol | Mae angen oriau gweinyddol i gefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd yn swyddfeydd lleol Llywodraeth Cymru | Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol | 4.8.14 | Wedi penodi ar gyfer Gogledd Cymru, Canolbarth a'r De-ddwyrain |
| Cynllunio olyniaeth | Ailystyried proses recriwtio'r FPS a | Swyddogion | 17.9.14 | Ceisiadau hyfforddiant i fod gyda'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nodi<br>anghenion rhaglen paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer mis Hydref 14 | Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol | | AGLl erbyn 14.1.15 |
| Cyfarfodydd AGLl a Goruchwylwyr Bydwragedd | Ni fydd Goruchwylwyr Bydwragedd FPS yn cael eu galw'n FPS mwyach ond yn troi'n Oruchwylwyr Bydwragedd<br>Cynllunio cyfarfodydd AGLl wythnosol i fisol | Goruchwylwyr Bydwragedd FPS<br>Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol | 4.8.14<br>31.7.14 | Wedi'i gwblhau |
| Datblygu darpar Oruchwylwyr Bydwragedd gweithredol | Cynllunio diwrnod codi ymwybyddiaeth ar gyfer pob darpar Oruchwylydd Bydwragedd gweithredol i ehangu eu dealltwriaeth o swyddogaeth darpar Oruchwylydd Bydwragedd, o'r rota ar-alwad, o swyddogaeth ddiwygiedig y Goruchwylydd Bydwragedd yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd, ac ati. | Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a Goruchwylwyr Bydwragedd gweithredol | 31.7.14 | Cyswllt gan 2 ddarpar Oruchwylydd Bydwragedd a rhannu eu cynllun gweithredu |

## 5 Casgliad

Fel yn y gorffennol, mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd BI Abertawe Bro Morgannwg wedi gweithio'n galed iawn i ddarparu goruchwyliaeth o safon uchel

Er nad yw'r newid i'r model FPS wedi bod yn un rhwydd i rai unigolion, croesawyd y cyfle gan bawb gan gefnogi cydweithwyr a gynigiodd eu hunain ar gyfer y model FPS. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn y model diwygiedig mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen â rhagor o welliant yn ystod y misoedd nesaf, yn sgil datblygu cynllun gweithredu hunanasesu da ar gyfer yr archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth, yn ogystal â'r cyfraniadau y mae'r tîm cyfan wedi eu gwneud i'r cynllun cysgodi a throsglwyddo.

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i bob Goruchwylydd Bydwragedd, presennol a blaenorol, am eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud i gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o'r farn y gall y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, wedi ei ddarparu gan dîm o Oruchwylwyr Bydwragedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, ddim ond bod er gwell. Rydym eisoes yn gweld canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau, cydymffurfiad cynyddol â'r broses adolygu goruchwyliaeth flynyddol a llwyddiannau, ac rydym wedi cael llawer o adborth cadarnhaol gan fydwragedd, er y ffaith fod rhywfaint o agwedd negyddol gan rai am ba mor llwyddiannus fyddai'r prosiect.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm cyfredol o Oruchwylwyr Bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr i'r proffesiwn bydwreigiaeth a'i bod wir yn ychwanegu gwerth at y strwythurau llywodraethu sy'n bodoli eisoes.

**Atodiad A**

# AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen ar gyfer Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 8 Ionawr 2014**
**Lleoliad:** **Ysbyty Singleton, Abertawe**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **1** | 0900 | **Cyrraedd a Choffi** |
| **2** | 0930 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLl<br><br>Cyflwyniad Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 13-14 a chyfeiriad goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Cymorth gweinyddol ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd |
| **3** | 0945 | Cyflwyniad trosolwg 45 munud o hyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o'r cynnydd o ran cyflawni cynllun gweithredol 2013-14<br>2. Mesurau rheoli ar gyfer camau gweithredu â blaenoriaeth sydd heb eu cymryd erbyn diwedd chwarter 4 i lywio cynllun 2014-15<br>3. Enghreifftiau o Arfer Da a chyflawniadau'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd<br>4. Enghreifftiau o'r proffil goruchwylio yn lleol |
| **4** | 1030 | 15 munud Cwestiynau ac Atebion |
| **5** | | Egwyl |
| **6** | 1100 | Ymweliad Pyramid Ch3 a'r AGLl. Gwrando'n hanfodol wrth wirio tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol |
| **7** | 1300 | **Cinio** |
| **8** | 1330 | Tîm Adolygu'r AGLl i grynhoi canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer adroddiad |
| **9** | 1430 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd gyda throsolwg o'r diwrnod a'r camau nesaf |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | 1500 | 1:1 Y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt i adolygu Cerdyn sgorio cytbwys Ch3 ar gyfer materion penodol |

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr y broses Archwilio Blynyddol – BI Abertawe Bro Morgannwg**

Cyfarwyddwr Nyrsio – Chris Williams

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Cathy Dowling

**Goruchwylwyr Bydwragedd:**

Gwynneth Singh, Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt.

Wendy Sunderland-Evans, Karen Evans, Dawn Apsee, Jayne Cockwell, Kath Thomas, Caroline Penhallurick, Liz Rees, Sara Morgan

**Cymorth gweinyddol ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd** – Pat Beresford

**Wedi'u cyfarfod gan Dîm yr AGLl**

Bydwragedd mewn ardaloedd clinigol

Bydwragedd dan Hyfforddiant

Defnyddwyr gwasanaeth

Meddygon

**Ymddiheuriadau:**

Dim yn hysbys